Cofnod o benderfyniadau a wnaed gan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ddydd Llun 20 Ebrill 2026

Rhif yr Eitem ar yr Agenda	Pwnc	Penderfyniad
1	Presenoldeb ac Ymddiheuriadau	Cynghorwyr yn bresennol: Dylan Rees (Cadeirydd); Mark Young (Dirprwy Gadeirydd); Carol Beard; Tina Claydon; Paul Cunningham; Ann Davies; Jeff Evans; Ian Hodge; Alan Hughes; Chris Hughes; John Brynmor Hughes; Gareth R Jones; Charlie McCoubrey; Gwynfor Owen; Arwyn Herald Roberts; Austin Roberts; Gareth A Roberts; Rondo Roberts; Paul Rogers; Gareth Sandilands; Gareth Williams Antony Wren Ymddiheuriadau: Cynghorwyr: Bryan Apsley; Chrissy Gee; John Ifan Jones Yn absennol: Cynghorwyr: Marc Jones; Beverley Parry-Jones; Dale Selvester Hefyd yn bresennol: PST Dawn Docx; PSTC Helen MacArthur; PSTC Justin Evans; PSTC Anthony Jones; Dafydd Edwards, Trysorydd; Gareth Owens, Swyddog Monitro; Matt Powell, Dirprwy Swyddog Monitro; Elgan Roberts, Pennaeth Cyllid; Steve Morris, Pennaeth TGCh; Llinos Evans, Pennaeth Cyfathrebu Corfforaethol; Paul Kay, Pennaeth Diogelwch Tân; Elin Hughes, Hyrwyddwr Diwylliant; Heledd Davies, Cyfieithydd; Lisa Allington, Gwasanaethau Aelodau; Ffion Evans, Cynorthwyydd Gweithredol
2	Datganiadau o Fuddiant	Datganodd y Trysorydd fuddiant yn Eitem 19, Rôl y Trysorydd (Swyddog adran 151).
3	Hysbysiad o Faterion Brys	Dim.
4	Cofnodion cyfarfod yr Awdurdod Tân ac Achub a gynhaliwyd ar 19 Ionawr 2026	i) Cywirymeradwyo'r cofnodion yr Awdurdod Tân ac Achub o 19 Ionawr 2026 fel cofnod gwir a chywir o'r cyfarfod a gynhaliwyd.

Rhif yr Eitem ar yr Agenda	Pwnc	Penderfyniad
5	Adroddiad y Cadeirydd a gwahoddiad i ddathlu 30 mlynedd	i) Nodi'r wybodaeth a roddwyd yn y papur.
6	Diweddariad yr Hyrwyddwyr Diwylliant	i) Nodi'r rhaglen o welliannau sy'n mynd rhagddi dan arweiniad yr Hyrwyddwyr Diwylliant.
7	Diweddariad am yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys	i) Nodi bod swyddogion wedi parhau i weithio gyda chyrff cynrychioliadol mewn partneriaeth gymdeithasol i ddatblygu ffordd ymlaen gyda'r Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys; ii) Nodi bod cynnydd wedi'i wneud wrth lansio cynllun peilot llawn y Chytuno ar Gydgytundeb ar 1 Ionawr 2026; a iii) Gwerthfawrogi ymdrechion parhaus yr holl bartïon i fonitro ac adolygu'r peilot yn rheolaidd i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn addas i'r pwrpas
8	Diweddariad ar Brosiect Canolfan Hyfforddi Hwb Awen	i) Nodi'r cynnydd sy'n cael ei wneud gyda Chanolfan Hyfforddi Hwb Awen.
9	Strategaethau a Datganiadau Ariannol ar gyfer 2026/27	i) Cymeradwyo'r Strategaeth Gyfalaf; ii) Cymeradwyo Strategaeth Rheoli'r Trysorlys gan gynnwys dangosyddion darbodus; a iii) Cymeradwyo'r Datganiad MRP Blynyddol 2026/27.
10	Strategaeth Adnoddau Tymor Canolig 2026-30	i) Cymeradwyo Strategaeth Adnoddau Tymor Canolig 2026–2030.
11	Datganiad Polisi Tâl 2026/27	i) Nodi gofynion Deddf Lleoliaeth 2011; a ii) Cymeradwyo'r Datganiad Polisi Tâl ar gyfer blwyddyn ariannol 2026/27.
12	Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol 2026/27	i) Nodi cynnwys yr adroddiad Ymgynghori; a ii) Cymeradwyo Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol 2026–27 sydd wedi'i atodi a'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb cysylltiedig i'w cyhoeddi.
13	Datganiad Polisi Disgresiynol Cynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân	i) Cymeradwyo'r mân newidiadau sy'n cael eu cyflwyno ar gyfer adfer buddion goroeswyr, o dan Reol C9.

Rhif yr Eitem ar yr Agenda	Pwnc	Penderfyniad
14	Bwrdd Pensiwn Lleol Cynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân – Adroddiad Blynyddol 2025/26 a'r Cylch Gwaith	i) Cymeradwyo Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Pensiwn Lleol 2025/26; a ii) Cymeradwyo Cylch Gorchwyl y Bwrdd Pensiwn Lleol ar gyfer 2026/27.
15	Adroddiad Blynyddol ar Gydnabyddiaeth Ariannol i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru 2026/27	i) Nodi penderfyniadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol mewn perthynas â lwfansau a chydnabyddiaeth ariannol yr aelodau o 1 Ebrill 2026; a ii) Rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Clerc i ddiweddaru'r atodlen o gydnabyddiaeth ariannol aelodau yng nghyfansoddiad yr Awdurdod ac i wneud unrhyw newidiadau angenrheidiol i atodlen 2026/27 o bryd i'w gilydd yn ystod y flwyddyn ddinesig, i adlewyrchu unrhyw newidiadau yn aelodaeth yr Awdurdod, neu o ganlyniad i unrhyw adroddiadau atodol a gyhoeddwyd gan y DBCC.
16	Penodi Aelod Annibynnol i wasanaethu ar Bwyllgor Safonau'r Awdurdod	i) Penodi David Davies am gyfnod o bedair blynedd o 20 Ebrill 2026 ymlaen; a ii) Diolch i Julia Hughes a Sally Ellis am eu gwaith caled a'u hymrwymiad.
17	Alldro Dros Dro 2025–26	i) Nodi'r sefyllfa alldro refeniw a ragwelir a'r llithriad cyfalaf a ragwelir ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26, fel y manylir yn yr adroddiad; ii) Nodi'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r alldro dros dro a chydnabod bod y ffigurau a ragwelir yn yr adroddiad hwn yn ddarbodus; a iii) Cymeradwyo'r symudiad i/o'r cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd a'r gronfa gyffredinol.
19	Rôl y Trysorydd (Adran 151)	i) Cefnogi'r trefniadau arfaethedig ar gyfer mewnoli rôl statudol Swyddog Adran 151 ac argymell cymeradwyo'r penodiadau gan yr Awdurdod llawn ar 20 Ebrill 2026; a ii) Y Clerc i gael ei awdurdodi i ddiweddaru cyfeiriadau at y Trysorydd o fewn y Cyfansoddiad yn unol â hynny.